# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## HYDREF 2018

## CYMRAEG IAITH - UNED 2
## 3000N20-1

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2018.  Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad.  Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth.  Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 2**

**HYDREF 2018**

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

Yn yr adran hon mae 5 darn darllen ar y thema ‘Teithio’. Darllenwch **bob** un o’r darnau’n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy’n dilyn.

**Darn Darllen 1**
**Pa mor bell o Gymru…?**

**A1**. Pa ddinas yw’r agosaf at Gymru? [1]

1 marc am nodi:

- Dulyn (Iwerddon)

Ddim yn derbyn ‘Dublin’ neu unrhyw sillafiad Saesneg

(Adalw Gwybodaeth)
✓ = 1 marc

**A2**. Nodwch a yw’r brawddegau canlynol yn gywir neu anghywir trwy roi ✓ yn y golofn briodol. [2]

1 marc am bob 2 ateb cywir (✓ i bob ffaith gywir):

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Yn y darn darllen, 4 dinas sydd yn bellach na 3,000 o filltiroedd o Gymru. | ✓ | |
| Mae dinas Kemi ym Mhortiwgal. | | ✓ |
| Beijing, China yw’r ddinas agosaf at Gymru. | | ✓ |
| Mae dinas Boston yn America dair mil, un cant a dau ddeg pedwar o filltiroedd o Gymru. | | ✓ |

(Dehongli Gwybodaeth)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2**
**Gogls Rhithwir**

**A3.** Darllenwch y llinell hon o'r darn darllen:

'Yna dyma'r ateb i chi!'

Pa nodwedd arddull a ddefnyddir gan yr awdur yn y llinell hon? [1]

1 marc am nodi:

Ebychiad ☑

(Dehongli/adnabod term arddull)



© WJEC CBAC Cyf.

**A4.** Sut mae'r awdur yn ceisio perswadio'r darllenydd i brynu gogls rhithwir yn y poster hwn? Ydych chi'n credu ei fod yn llwyddiannus? [5]

**0 marc** Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1 marc** Ateb syml yn cyfeirio, o bosib, at un neu ddau ddull o berswadio gydag ychydig o dystiolaeth.

**2 farc** Cyflwyno 3-4 dull o berswadio gyda thystiolaeth.

**3 marc** Enwi 3+ dull o berswadio gan ddyfynnu/enghreifftio a dechrau dadansoddi effaith.

**4 marc** Enwi 3+ dull o berswadio gan ddyfynnu/enghreifftio a dadansoddi'n dda.

**5 marc** Enwi 3+ dull o berswadio gan ddyfynnu/enghreifftio a dadansoddi'n hyderus a deallus.

| Gall yr ymgeiswyr gyfeirio at rai o'r nodweddion a ganlyn: | |
|---|---|
| Naws bositif/geirfa bositif | breuddwydio/ateb/y byd i gyd |
| Cyfarch | Ydych chi…?/eich llaw/o'ch |
| Berfau ail berson lluosog | ydych/cewch/gwisgwch |
| Rhagenwau | eich/chi |
| Berf orchmynnol | Gwisgwch |
| Cwestiynau rhethregol | Ydych chi'n…?<br>Amser yn broblem? |
| Ebychiadau | Yna dyma'r ateb i chi!<br>heb symud cam o'ch cartref! |
| Teitl print trwm | Gogls Rhithwir |
| Lluniau | Tŵr Eiffel/Mur Mawr China/Tŷ Opera Sydney |
| Lliwiau | |
| Berfenwau | Dringo/Cerdded/Ymweld |
| Idiom | Y byd i gyd yn grwn |
| Negydd | Dim |
| Cyferbyniad | dringo, cerdded, ymweld/pacio, trefnu, gwaith |
| Ansoddair | gorau |
| Rhestru | llefydd i ymweld â hwy/manteision |
| Pris | £39.99 **yn unig** |
| Dyfynnu cwsmer | '…wedi newid fy mywyd.' |

✓ - nodwedd/cyfeiriad/ffaith
t – tystiolaeth
d - dadansoddi
(Gwerthuso/dadansoddi)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**
**Ar Wib!**

**A5.** Edrychwch ar y gosodiadau yn y tabl isod a rhowch ✓ yn un o'r colofnau ym mhob achos er mwyn dangos pa un yw'r ateb cywir. [3]

1 marc am bob 2 ateb cywir (✓ i bob ffaith):

| | Francisco | Bugatti Veyron | Saturn V | Maglev Shanghai | X43 |
|---|---|---|---|---|---|
| Does dim injan yn pweru'r cerbyd hwn. | | | | ✓ | |
| Hwn yw'r cerbyd cyflymaf. | | | ✓ | | |
| Mae'r cerbyd hwn yn cael ei bweru gan hydrogen ac aer. | | | | | ✓ |
| Tyrbinau nwy sy'n gyrru'r cerbyd hwn. | ✓ | | | | |
| Mae'r cerbyd hwn wedi teithio i'r gofod. | | | ✓ | | |
| Mewn llai na thair eiliad, mae'r cerbyd hwn yn gallu cyrraedd cyflymder o chwe deg milltir yr awr. | | ✓ | | | |

(Dehongli)

**A6.** Pa air sy'n awgrymu nad yw un o'r cerbydau'n cyffwrdd â'r ddaear? Ticiwch y blwch cywir. [1]

1 marc am nodi:

Arnofio ☑

(Deall ystyr gair)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**
**Cymru a'r Byd**

**A7.** Ydych chi'n credu'r stori mai Madog wnaeth ddarganfod America? Defnyddiwch dystiolaeth o'r darn darllen i gefnogi eich ateb. [5]

**0 marc** Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1 marc** Nodi barn yn fras – rhaid cael un cyfeiriad am y darn

**2 farc** Nodi barn gydag ambell reswm/tystiolaeth

**3 marc** Nodi barn yn eithaf manwl gyda rhesymau/tystiolaeth

**4 marc** Barn fanwl gyda rhesymau a dechrau dehongli tystiolaeth

**5 marc** Barn fanwl gyda rhesymau cadarn a dehongli tystiolaeth yn effeithiol

| Gellir nodi eu bod yn credu, nad ydynt yn credu neu'r ddau am resymau gwahanol | |
|---|---|
| Credu | Ddim yn credu |
| Chwedl = hanner gwir | chwedl = hanner ffuglen |
| Manylion credadwy e.e. enw'r llong/ Man geni Madog ac enw ei dad a'i fam | 'honni' |
| Wedi hwylio'n ôl i Gymru – wedi gallu dweud am y darganfyddiad wrth y Cymry | Rhoi papurau at ei gilydd i brofi cysylltiad – awgrym o ffugio? |
| Mandan yn siarad iaith debyg i'r Gymraeg/byw mewn trefi/gwallt yn britho/cwrwgl – dylanwad Cymreig | Dim cofnod hanesyddol bod Madog yn fab i Owain Gwynedd |
| 4 sgerbwd/arfwisgoedd ag arbais Gymreig | Cred nid ffaith |
| Cerdd yn nodi bod Madog yn fab i Owain Gwynedd/wedi hwylio'r moroedd | Dywedir – amhersonol, niwlog |
| Adeiladau ar ffurf Castell Dolwyddelan/ dynion gwyn wedi eu codi | Y gerdd wedi ei hysgrifennu tua 300 mlynedd wedi i Madog lanio – y chwedl wedi tyfu erbyn hynny |
| Cymdeithas Madog – profi bod Americanwyr yn credu'r hanes | |

✓ - barn
t – tystiolaeth
d – dehongli

(Gwerthuso a myfyrio/gwahaniaethu rhwng ffaith a barn/dehongli testunau yn wahanol)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
**Elon Musk**

**A8.** Ticiwch un o’r blychau i ddangos lle cafodd Elon Musk ei eni. [1]

1 marc am nodi:

De Affrica ☑

(Casglu Gwybodaeth)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 4 a 5**
**Cymru a'r Byd ac Elon Musk - Bywgraffiad**

**A9.** **Cymharwch** yr hyn rydych chi wedi ei ddysgu am Madog ab Owain Gwynedd ac Elon Musk. Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o'r darnau darllen i gefnogi'ch ateb. [6]

**0 marc** Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1-2 farc** Gallu adalw gwybodaeth am y ddau berson ac ychydig o ymdrech i gymharu.

**3 marc** Adalw gwybodaeth yn eithaf manwl gan gymharu'r ddau berson yn eithaf cyson.

**4 marc** Adalw gwybodaeth am y ddau berson, gan gynnwys gwybodaeth sy'n gynyddol heriol, yn fanwl gan ddechrau dehongli a chymharu'n gyson.

**5 marc** Ateb manwl sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl, ac weithiau'n heriol, am y ddau berson gan gymharu'n effeithiol. Bydd elfen o ddehongli yn amlwg yn yr ateb.

**6 marc** Dethol gwybodaeth berthnasol am y ddau berson, yn aml yn heriol, yn ddeheuig gan ddehongli'n aeddfed a chymharu'n effeithiol.

| Gellir cyfeirio at y canlynol, er enghraifft: | |
|---|---|
| **Elon Musk** | **Madog** |
| Dyn | Dyn |
| Geni - De Affrica | Geni - Cymru |
| Nodi dyddiad geni | Dim dyddiad geni penodol |
| Byw 20/21g | Byw yn y 12g |
| Dal yn fyw | Wedi marw |
| Sôn am fam a thad | Sôn am fam a thad |
| Un brawd ac un chwaer | un o un ar hugain o blant |
| Poeni am yr amgylchedd | Rhyfela yn ei boeni |
| Person go iawn | Chwedl? Wedi bodoli? |
| Eisiau cyrraedd tir anghyfarwydd - Mawrth | Darganfod tir newydd |
| Dyn cyfoethog iawn | Cerdd yn nodi iddo gefnu ar ei gyfoeth |
| Gadael De Affrica i osgoi gorfodaeth filwrol | Gadael Cymru i osgoi'r ymladd |
| Dod yn ddinesydd Americanaidd | Dod yn ddinesydd Americanaidd |
| Eisiau mynd â phobl i'r blaned Mawrth | Mynd â Chymry yn ôl i America gydag ef |
| *Entrepreneur* – gwneud arian | Mab i frenin felly etifeddu cyfoeth |
| Dyfeisydd | Darganfyddwr |


© WJEC CBAC Cyf.

| **Enghreifftiau o ddehongli:** | |
|---|---|
| Mentrus – gadael i fyw yng Nghanada yn ifanc | Mentro o Gymru mewn cyfnod pan fyddai teithio'n ddigon peryglus |
| Bwriadu gwladychu'r blaned Mawrth | Gwladychu America |
| Dylanwad – cynghori'r Arlywydd Trump | Dylanwad – defnyddio'i hanes i brofi cyswllt America â Brenhiniaeth Lloegr/Mandan yn siarad Cymraeg |
| Gallai dyfu i fod yn arwr/person sy'n cael ei gofio | Madog yn arwr i'r Cymry/enwi cymdeithas Gymraeg yn America ar ei ôl |

✓ - person cyntaf
✓✓ - ail berson
d - dehongli
c - cymharu
(Gwerthuso/dadansoddi/cymharu)



© WJEC CBAC Cyf.

**A10. Golygu** **[5]**

(i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Gan fod y llwybr yn un heriol, argymhellir mai dim ond cerddwyr ______________ sy'n mentro ar ei hyd.

1 marc am nodi:

profiadol ☑
✓ = 1 marc

(ii) Rhowch ✓ yn y blwch cywir i nodi pa ddau air sydd ar goll o'r brawddegau canlynol: [2]

2 farc am nodi:

Oherwydd y tywydd ___________ bydd y gêm yn cael ei gohirio. Bydd yn cael ei haildrefnu pan fydd y tywydd yn ____________.

garw… gwella ☑
✓ = 1 marc x 2

(iii) Dewiswch ddau air o'r rhestr ganlynol a'u gosod yn y bylchau priodol. [2]

**1 marc yr un am nodi:**

(a) Castell Dolwyddelan yw ffefryn Jac o holl gestyll **Cymru**.

(b) Mae'r **Cymry** yn bobl sy'n hoff iawn o chwedlau.

✓ = 1 marc x 2



© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)

Yn yr adran hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau ysgrifennu.

**B1.** Yn y dasg hon byddwch yn cael eich asesu ar eich gallu i brawf-ddarllen a chywiro iaith. **[5]**

(i) Gosodwch **dau** neu **dwy** o flaen y geiriau canlynol. Mae un ateb wedi ei roi i chi'n barod. [3]

1 marc am bob dau ateb cywir (✓ i bob ateb cywir)

dau gar
**dwy** gadair
**dau** dŷ
**dau** lyfr
**dwy** gerdd
**dau** fag
**dwy** nofel

Rhaid cael sillafiad cywir i dau/dwy

(ii) Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]

1 marc am nodi:

yn gyflym ☑

(iii) Cywirwch y frawddeg ganlynol. Dylech ysgrifennu'r frawddeg yn gywir ar y llinell. [1]

Elin yw'r talach o'r tair chwaer.

1 marc am gywiro:

Elin yw'r talaf o'r tair chwaer.
Derbynnir 'dalaf'.
Ni dderbynnir 'mwyaf tal'.

✓ = 1 marc


© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**



© WJEC CBAC Cyf.